# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD GWENER, 26 MAWRTH 2021 am 2.00 o'r gloch yp | FRIDAY, 26 MARCH 2021 at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHWIR | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor — Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Sue Altree (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Parch/Rev Debra Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Parch/Rev Jim Clarke (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Gerald Hewitson (Crynwyr Môn/Anglesey Quakers)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020.

3 **CYFLWYNIAD AR RANNU GWYBODAETH AG ATHRAWON AR BLATFFORM ELECTRONIG**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Mr Owen Davies, Uwch Reolwr Cynradd, Adran Addysg, ac aelod o'r Panel Gweithredol Ysgolion CYSAG.

4 **CYFLWYNIAD AR WAITH Y PANEL GWEITHREDOL YSGOLION CYSAG**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod a chyfle i aelodau'r panel gael eu cyflwyno i Mrs Helen Roberts, aelod proffesiynol o'r Panel Gweithredol Ysgolion CYSAG.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2019/20** (Tudalennau 7 - 34)

I gyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer y cyfnod 2019/20.

6 **HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION** (Tudalennau 35 - 62)

Cyflwyno Adroddiad Hunan Arfarnu Addysg Grefyddol gan Ysgol Gynradd Kingsland, Caergybi.

7 **CANLYNIADAU TGAU A LEFEL A**

Derbyn diweddariad gan gynrychiolwyr athrawon CYSAG ar sut maent yn asesu disgyblion er mwyn pennu canlyniadau TGAU a Lefel A.

8 **CYMDEITHAS CYSAG CYMRU (CCYSAGAUC)** (Tudalennau 63 - 66)

I ystyried y wybodaeth ganlynol a ddarparwyd gan CCYSAGauC:-

Gwelliannau a gytunwyd gan y Gweinidog Addysg Kirsty Williams yn Senedd Cymru – Cam 2 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mr Rheinallt Thomas i roi diweddariad.

9 **CYFARFOD NESAF**

Mae'r cyfarfod nesaf o CYSAG wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 22 Mehefin, 2021.

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O Jones,
Alun W Mummery, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol**

Y Parch Jim Clarke (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch)

**Aelod Cyfetholedig**

Mr Rheinallt Thomas

**WRTH LAW:** Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Lles, Addysg) (Ymgynghorydd AG i'r CYSAG)
Mrs Helen Bebb (Ysgol David Hughes, Porthaethwy) (Aelod o Banel Gweithredol Ysgolion CYSAG)
Mrs Margaret Peters (Swyddog Prosiect Cefnogi Busnes Ysgolion) (Clerc y CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)
Mrs Helen Bebb (Aelod o Banel Gweithredol Ysgolion CYSAG)

---

Adroddodd y Cadeirydd fod Mrs Catherine Jones, aelod o CYSAG Ynys Môn a oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, wedi anfon neges at y CYSAG yn datgan fod Mrs Debra Stammers o Gaergybi, sydd yn weinidog rhan-amser i Undeb Bedyddwyr Cymru, yn fodlon ymweld ag ysgolion neu gymryd rhan mewn unrhyw

weithgareddau ar ran y CYSAG, drwy apwyntiad. Bydd Mrs Stammers yn cael ei hordeinio gan y Parchedig yn y dyfodol agos.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- Adroddodd Mr Rheinallt Thomas y bu datblygiadau ers iddo godi pryderon y CYSAG yng nghyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 7 Hydref 2020, ynghylch y llwyth gwaith y mae ysgolion yn gorfod ei ysgwyddo mewn perthynas â'r Maes Llafur Cytûn. Dywedodd Mrs Mefys Jones-Edwards fod CBAC wedi ymateb i'r pryderon a godwyd a'u bod wedi addasu'r maes llafur TGAU ac AS drwy leihau'r llwyth gwaith i ysgolion. Dywedodd fod disgyblion yn awr yn gallu dewis 3 allan o 4 uned yn y maes llafur Addysg Grefyddol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, o gymharu â 4 yn flaenorol. Er ei bod yn amlwg fod ysgolion yn falch o ymateb CBAC, roedd yr athrawon wedi mynegi pryder ynghylch dyfodol Addysg Grefyddol ar ôl i'r pandemig Covid-19 ddod i ben a'r hyn fydd yn digwydd ar ôl 2021. Roedd yr athrawon a'r CYSAG yn teimlo bod angen cyfleu eu pryderon i CBAC unwaith eto.
- Cadarnhawyd y bydd Mr Richard Jones, Pennaeth Ysgol Santes Fair, Caergybi yn ymuno â Phanel Gweithredol Ysgolion CYSAG.
- Cytunwyd y byddai'r Parch Jim Clarke yn cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y CYSAG.
- Cadarnhawyd y bydd Panel Gweithredol Ysgolion CYSAG yn cysylltu ag Ysgol Rhoscolyn i ddarparu cymorth ynghylch y derminoleg gywir i'w defnyddio wrth baratoi adroddiadau hunan arfarnu ysgolion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod Ymgynghorydd AG y CYSAG yn ysgrifennu at CBAC i ddiolch iddynt am roi sylw i bryderon CYSAG Ynys Môn, gan ddatgan hefyd pryderon y Pwyllgor ynghylch dyfodol Addysg Grefyddol yn 2022.**
- **Anfon copi o'r llythyr at Linda Maddock, Swyddog Addysg Grefyddol CBAC.**

**3. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD ADDYSG GREFYDDOL Y CYSAG**

Adroddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod y data ar gyfer Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn wedi cael ei gasglu a'i ddadansoddi. Dywedodd fod cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn wahanol i adroddiadau blaenorol, oherwydd Covid-19 ac am nad oedd disgyblion wedi sefyll arholiadau. Nodwyd y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno

i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror 2021.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r cynnig i newid yr enw Addysg Grefyddol i Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno gyda chymorth y Fframwaith newydd ar gyfer Addysg Grefyddol, a bydd angen i ysgolion ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm eu hunain. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn llunio'r Fframwaith terfynol ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryderon y bydd risgiau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd os nad yw ysgolion yn rhoi digon o bwyslais ar bob pwnc. Mewn perthynas ag Addysg Grefyddol, bydd rhaid i'r pwnc gystadlu â Hanes a Daearyddiaeth ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau er mwyn cael lle mewn ysgolion, ac efallai y bydd perygl y bydd Addysg Grefyddol yn cael ei wanhau ymhellach. Nodwyd, er bod y cwricwlwm yn gadarnhaol o ran ei ddull thematig, roedd y CYSAG yn teimlo nad yw'r themâu'n ddigon miniog, a bydd rhaid cynllunio'n ofalus i addasu'r cwricwlwm. Yn ogystal, nodwyd bod mwy o risg i Addysg Grefyddol na phynciau eraill gan fod llai o athrawon sy'n arbenigwyr yn y maes, a bod llai o ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer athrawon Addysg Grefyddol.

Mae'r amserlen gyfredol yn parhau er gwaethaf Covid-19, a bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu yn 2022. Bydd Panel Gweithredol Ysgolion CYSAG yn gweithio i sicrhau nad yw Addysg Grefyddol yn mynd ar goll ymysg pynciau eraill.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr heriau sy'n wynebu CYSAGau mewn perthynas â'u rôl yn y cwricwlwm newydd. Bydd angen i'r CYSAGau fonitro a chynghori ysgolion, a chynnig eu cefnogaeth i sicrhau y rhoddir amser priodol i bob pwnc. Ni ddylai'r CYSAGau ystyried y Cwricwlwm Newydd fel rhwymedigaeth, ond fel cyfle i helpu ysgolion i gael gweledigaeth ehangach o'r byd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 4. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU

Adroddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar y canlynol:-

- Cynhaliodd y Panel Gweithredol Ysgolion CYSAG ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 11 Mawrth 2020 a chraffwyd ar adroddiadau hunan arfarnu a gyflwynwyd gan Ysgol Goronwy Owen, Ysgol Gymuned y Fali, Ysgol Rhoscolyn, Ysgol y Tywyn ac Ysgol Llanfawr. Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar yr enw newydd arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol, er mwyn derbyn barn athrawon ac ysgolion ar y mater. Nodwyd na chynhaliwyd yr un cyfarfod pellach hyd yma, ond y gobaith yw y bydd modd i'r Panel Gweithredol ailgychwyn y broses yn fuan.
- Nodwyd fod yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r aelod cyfetholedig wedi mynychu cyfarfod NAPfRE. Gofynnwyd am farn y rhai oedd yn bresennol ar yr enw newydd ar gyfer Addysg Grefyddol, sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Rhannwyd adnoddau ar gyfer athrawon yn y cyfarfod, ac maent wedi cael eu rhannu ag ysgolion ar Ynys Môn.
- Ymatebodd y CYSAG i'r Ymgynghoriad ar y cwricwlwm drwy ysgrifennu llythyr

yn mynegi anfodlonrwydd y CYSAG fod y cwestiynau'n anodd eu deall ac yn amherthnasol.

- Mae Mr Owain Davies, Swyddog Addysg, wedi ymuno â'r Panel Gweithredol i oruchwylio gwaith y Panel.
- Gwahoddir Mrs Helen Robets o Brifysgol Bangor, sydd hefyd yn aelod o'r Panel Gweithredol, i gyfarfod nesaf y CYSAG ym mis Chwefror i gyflwyno trosolwg o waith y Panel yn yr ysgolion.
- Darparwyd cyllid i ryddhau aelodau'r Panel Gweithredol o'u dyletswyddau er mwyn mynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi.
- Mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2020-22, cadarnhawyd fod llwyfan electronig wedi cael ei greu er mwyn i ysgolion rannu adnoddau ac arfer dda mewn Addysg Grefyddol, ynghyd â gwaith y CYSAG a'r Panel Gweithredol mewn ysgolion. Cytunodd y CYSAG fod y llwyfan yn syniad ardderchog ac y byddai'n codi proffil y CYSAG a'r Panel Gweithredol yn yr ysgolion ac yn rhoi cyfle i ysgolion ddatblygu eu gwaith a rhannu eu syniadau.
- Mae Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru a GwE wedi bod yn cydweithio i rannu adnoddau gydag ysgolion. Roedd yr Eglwys yn teimlo fod plant angen cymorth gydag Addoli ar y Cyd, gan nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn gwasanaethau dyddiol mewn ysgolion. Bu'r Eglwys yn recordio sesiynau Addoli ar y Cyd cyfrwng Cymraeg ac mae GwE wedi eu rhannu ag ysgolion. Cytunodd Mrs Anest Frazer i anfon yr adnoddau uchod at Owain Davies ar gyfer y Panel Gweithredol.

Codwyd pryderon nad yw athrawon yn cael cyfle bellach i fynychu cyrsiau a drefnir gan CBAC oherwydd y pandemig. Yn hytrach, maent yn cael gwahoddiad i fynychu sesiynau gweminar dwy awr o hyd ar gyfer TGAU a Lefel A, sy'n cael eu cynnal ar wahanol ddiwrnodau. Nodwyd fod pob sesiwn gweminar yn costio £100, sy'n dod i gyfanswm o £300 ar gyfer pob pwnc. Nid yw pob ysgol yn gallu fforddio'r gost gan olygu fod rhai athrawon yn cael eu hamddifadu.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod CBAC yn cael ei redeg fel busnes yn hytrach na gwasanaeth ar ôl iddo gael ei breifateiddio, sy'n golygu o bosib nad yw mor effeithiol ar gyfer ysgolion. Nodwyd fod CBAC wedi llwytho adnoddau dysgu ar gyfer pob pwnc ar eu gwefan. Mae'r adnoddau TGAU yn dda, ac maent yn parhau i gael eu datblygu a gall disgyblion gael mynediad atynt wrth weithio gartref.

Gofynnodd aelod a ddylai CYSAG gael ei gyllideb ei hun er mwyn helpu i ariannu gweminarau? Cytunwyd i ddisgwyl am adborth pellach gan athrawon sydd wedi mynychu sesiynau gweminar cyn holi am gyllid.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Gwahodd Mrs Helen Roberts o Banel Gweithredol Ysgolion CYSAG i gyfarfod nesaf y CYSAG.**
- **Mrs Mefys Jones-Edwards i roi diweddariad ar y sesiynau gweminar yng nghyfarfod nesaf y CYSAG.**

5. **CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Adroddodd Mr Rheinallt Thomas ar y prif bwyntiau a drafodwyd yng nghyfarfod rhithwir Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020. Cyfeiriwyd at y Fframwaith Cefnogi Addysg Grefyddol. Nodwyd bod yr oedi o ran cyhoeddi'r Fframwaith wedi cael ei achosi gan Adran Gyfreithiol Llywodraeth Cymru gan y bu'n rhaid iddynt ymateb i heriau ychwanegol mewn perthynas â deddfwriaeth newydd yn ystod y pandemig. Nodwyd fod y Fframwaith ar gael ers mis Mehefin, i'w gylchredeg i'r CYSAGau. Cytunodd Cymdeithas CYSAGau Cymru i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon ynghylch y diffyg gweithredu a'r oedi wrth rannu'r Fframwaith â'r CYSAGau a'i gyhoeddi wedi hynny. Gofynnwyd a ddylid gohirio'r amserlen ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion gan y bydd y Fframwaith yn ganllaw ar gyfer y cwricwlwm.

Mae ansicrwydd ynghylch a fydd Addysg Grefyddol yn cael ei alw'n Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae rhai'n ffafrio'r term Crefydd a Bydolygon.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar a ddylid caniatáu i grwpiau digrefydd ymuno â'r CYSAGau? Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu efallai y gellid creu grŵp CYSAG ychwanegol a'i alw'n Grŵp Aa ar gyfer grwpiau digrefydd, tra y byddai'r CYSAG presennol yn cael ei alw'n Grŵp A. Mae anghytundeb rhwng cynrychiolwyr o gefndiroedd crefyddol a Llywodraeth Cymru wrth geisio datrys y mater o gael cynrychiolaeth o blith grwpiau digrefydd ar y CYSAGau. Roedd Mr Thomas wedi awgrymu y dylai drafft newydd y ddeddf llywodraeth leol adlewyrchu'r ardal ac aelodau'r gymuned.

Rhoddwyd diweddariad i'r CYSAG ynghylch apwyntiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru, y cyfarfod blynyddol ac adroddiad y Trysorydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

6. **CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ddydd Mawrth, 16 Chwefror 2021.

7. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A (categori 16) y Ddeddf.**

8. **GOHEBIAETH**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cais gan y Grŵp Dyneiddwyr Lleol i ymuno â CYSAG Ynys Môn.

Ystyriwyd cais y Dyneiddwyr gan y CYSAG a cheisiwyd cyngor gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr opsiynau oedd ar gael.
Ar ôl ystyried cyngor y Cyfreithiwr, **PENDERFYNODD y CYSAG beidio â chefnogi'r penodiad ar y sail ganlynol:-**

- **Nid oes seddi gwag ar gyfer aelodau newydd ar GYSAG Ynys Môn ar hyn o bryd;**
- **Mae CYSAG Ynys Môn yn bwriadu adolygu ei Gyfansoddiad, pan gyhoeddir manylion pellach ar aelodaeth y CYSAG, yn unol â newidiadau deddfwriaethol arfaethedig fel rhan o ddatblygiadau yn ymwneud â Chwricwlwm i Gymru gan Lywodraeth Cymru.**

Adroddodd y Cadeirydd y bydd Mrs Margaret Peters, Clerc y CYSAG, yn gadael ei swydd gydag Adran Addysg y Cyngor yn fuan, ac yn mynd i weithio i Gyngor Conwy. Ar ran y CYSAG, diolchodd y Cadeirydd i Mrs Peters am ei gwaith rhagorol fel Clerc a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2019 – Awst 2020

Gyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Rhys Howard Hughes Medi 2019/ Awst 2020

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Leol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2019-20
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2019-20

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae unwaith eto yn fraint i mi, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.

Y llynedd ysgrifennais bod newidiadau seismig ar y gorwel gyda dyfodiad cwricwlwm newydd. Wrth edrych yn ôl dros y deuddeg mis diwethaf, pwy fyddai wedi meddwl y byddai newidiadau hyd yn oed mwy yn digwydd yn ein system addysg yn sgil effaith dychrynllyd Covid-19. O ganlyniad i hyn, nid oedd myfyrwyr yn gallu eistedd eu harholiadau TGAU a Lefel A, ond yn hytrach defnyddiwyd asesiadau athrawon yn seiliedig ar waith cwrs i raddio canlyniadau. Golyga hyn ei bod wedi bod yn amhosib cymharu data canlyniadau rhwng ysgolion. Beth y gwyddwn yw bod y nifer o ddisgyblion sy'n dewis dilyn Lefel A Addysg Grefyddol yn dal i ostwng, sy'n parhau i fod yn destun pryder.

Un datblygiad pwysig a chyffrous i'w adrodd yw sefydliad y Panel Gweithredol i Ysgolion. Sefydlwyd y Panel hwn i gynorthwyo'r CYSAG i fonitro darpariaeth A.G. mewn ysgolion ac i hyrwyddo arfer dda. Mae'r Panel yn cynnwys saith o gynrychiolwyr athrawon, tri ohonynt yn aelodau CYSAG, ac arweinir y Panel gan yr ymgynghorydd CYSAG.

Ar lefel genedlaethol, mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn symud yn ei flaen ac ar amser ysgrifennu'r crynodeb hwn, wedi symud i gam tri o'r broses gyfreithiol. Mae bellach yn amlwg y bydd A.G. yn cael ei haddysgu yn y cwricwlwm newydd fel "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" (C.G.M.) yn y maes llafur Dyniaethau. Mae aelodau CCYSAGauC yn parhau i fod yn weithredol iawn wrth ddarparu mewnbwn am ba feysydd o addysgu y dylid eu cynnwys yn y maes llafur cytunedig.

Fel sy'n arferol, mae nifer o argymhellion yn yr Adroddiad. Bydd yr holl argymhellion hyn yna'n cael eu cynnwys yn ein Cynllun Gweithredu sy'n ddogfen ddynamig, fel y gallwn fonitro ac adolygu cynnydd.

Eleni rydym wedi bod yn falch i groesawu aelod newydd i'r Pwyllgor fel cynrychiolydd ychwanegol o fewn y grŵp 'Enwadau Crefyddol', sef Mr Gerald Hewitson. Mae Mr Hewitson yn cynrychioli'r Crynwyr, ac fel Cyn-ddirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd Caergybi, mae ganddo gyfoeth o brofiad addysg.

I gloi, hoffwn eto gynnig fy niolchgarwch diffuant i'm cyd-aelodau Pwyllgor am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, hoffwn ddiolch i Mrs Gwyneth Hughes (Ymgynghorydd CYSAG) am ei chymorth amhrisiadwy ynghyd â chefnogaeth hanfodol Mrs Shirley Jones, ein Swyddog Pwyllgor.

Cymrwch ofal bawb.

Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd CYSAG Ynys Môn

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN i adnabod arferion da a chefnogi ymhellach unrhyw gyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd' sydd angen i'w gryfhau ;
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.
- Annog cydweithio rhwng ysgolion i adnabod a chefnogi arferion da

Wynebwyd heriau sylweddol i waith y Panel yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-20:

- Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i ddau ymgynghoriad o bwys sydd gydag oblygiadau sylweddol i Addysg Grefyddol fel pwnc a rôl benodol y Panel CYSAG;
- Yn dilyn ymlediad Covid 19 cafwyd cyfnodau clo a symudwyd ysgolion i addysgu'n rhithiol. Cafodd hyn effaith ar waith y Panel o fis Mawrth 2020 a bu rhaid atal ymweliadau arsylwi mewn ysgolion;
- Cafodd cyfnodau clo effaith ar weithdrefnau arferol ysgolion, e.e. amserlen i lunio Hunan Arfarniad, atal arholiadau allanol, ymweliadau arferol gan Estyn yn cael eu gohirio;
- Sefydlwyd ffyrdd gwahanol o gynnal cyfarfodydd Panel CYSAG drwy ymgysylltu'n rhithiol;
- Ymadawiad Clerc y Panel CYSAG i swydd newydd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y

cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN . Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog o fewn y gwasanaeth Dysgu Cyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau.

Derbyniwyd 5 adroddiad yn ystod 2019-20, sef 10.8% o ysgolion Môn. Llwyddwyd i wneud hyn yn ystod tymor yr Hydref a chyn cyfnod clo.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 | 11/53 | 2/47 | 8/46 | 5/46 |
| **% o ysgolion Môn** | 11% | 15% | 22% | 22% | 4% | 17% | 10.8% |

Yng nghyfarfod Panel CYSAG mis Hydref 2018, cyflwynodd y clerc canllawiau Hunan Arfarniad newydd i'r panel fyddai ar gael i bob ysgol gynradd. Mae'r templedi newydd yn cynnig arweiniad defnyddiol i ysgolion ar sut i gyflwyno tystiolaeth amrywiol a dod i farn feintiol drwy ddilyn terminoleg barnau Estyn. Mae'r templed newydd yn cynnwys y 5 cwestiwn allweddol barnau Estyn. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd Hunan Arfarniad gan ysgolion oedd yn cynnig naratif a barnau safonol , sampl lluniau ac enghreifftiau byrion o waith disgyblion . Mae hyn wedi hyrwyddo gwaith y Pwyllgor i fod yn fwy effeithiol i adnabod ansawdd gwaith disgyblion yn ein hysgolion cynradd o fewn maes Addysg Grefyddol a llunio barn am berfformiad.
Wrth symud ymlaen ar gyfer Cwricwlwm i Gymru bydd angen gwerthuso'r templed ymhellach i wirio bod yr HA yn gyd fynd gyda disgwyliadau a gofynion diweddaraf. Mae Pwyllgor Gweithredu CYSAG wedi ymrwymo i wneud y gwaith.

**<u>Rhestr Ysgolion Uwchradd wnaeth gyflwyno HA dros y flwyddyn</u>**
Ni dderbyniwyd Hunan Arfarniad o'r ysgolion uwchradd eleni.

**<u>Rhestr Ysgolion Cynradd wnaeth gyflwyno HA dros y flwyddyn</u>**

Cyflwynwyd adroddiadau hunan arfarnu ysgolion gan
Ysgol Gynradd Bodedern
Ysgol Gymuned Llannerchymedd
Ysgol Gymraeg Morswyn
Ysgol Y Fali
Ysgol Rhoscolyn

**<u>Crynodeb</u>**
Nodwyd bod adroddiad hunan arfarnu Bodedern yn dwyn sylw at rai arferion da sef y cyfleoedd a roddir i ddisgyblion siarad, gofyn cwestiynau a mynegi eu barn yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen. Cyfeiriwyd at y ffaith fod disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd yn llwyddiannus i ymchwilio i wybodaeth a chwblhau tasgau ysgrifenedig.

Barnwyd bod adroddiad hunan arfarnu gan Ysgol Gymuned Llannerchymedd yn onest iawn. Mae gan y disgyblion gefndir Addysg Grefyddol da; mae'r gwaith yn cael ei gynllunio ymlaen llaw; yn cael ei amserlennu'n gadarn ar sail wythnosol; ac yn cael ei restru fel blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu. Ym marn y CYSAG, roedd yr enghreifftiau o waith y disgyblion yn yr ystafell ddosbarth yn ardderchog.

Nodwyd yn adroddiad hunan arfarnu Ysgol Morswyn fod y Corff Llywodraethu wedi monitro AG yn yr ysgol, a bod cynnydd da wedi ei wneud mewn gwahanol feysydd a bod dealltwriaeth y disgyblion o arteffactau crefyddol yn dda. Cyfeiriodd yr adroddiad at ddiogelu disgyblion rhag cael eu radicaleiddio. Ym marn y CYSAG, roedd yr ymagwedd hon yn dda ond gwelwyd bod lle i gyfeirio a chyflwyno at debygolrwydd crefyddau eraill.

Adroddodd Pennaeth Ysgol y Fali fod safonau AG yn dda yn yr ysgol. Dywedodd fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad am eu teimladau, gweithredoedd a'u barn erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd Blwyddyn 5 a 6 yng Nghyfnod Allweddol 2, gall nifer o ddisgyblion esbonio sut mae eu teimladau, gweithredoedd a'u barn effeithio ar eu bywydau.

Mae adroddiad hunan arfarnu Ysgol Rhoscolyn yn datgan fod safonau AG yn foddhaol yn yr ysgol a bod rhai meysydd angen sylw. Esboniodd y Pennaeth fod gan y mwyafrif o ddisgyblion agwedd gadarnhaol ac iach tuag at AG a'u bod yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau am faterion moesol, lles ac ysbrydol. Nodwyd fod safonau addysgu AG a chyfraniad AG at ddatblygiad disgyblion yn gyffredinol da yn yr ysgol.

**Camau gweithredu yn codi o'r adroddiadau.**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Parhau i ddatblygu gwaith y Pwyllgor Gweithredu er mwyn hyrwyddo gwaith dalgylchol i rannu arferion ac adnoddau a safoni ansawdd.
- Bod Pwyllgor Gweithredu CYSAG yn cymryd rhan rhagweithiol i graffu ar ganran o HA ysgolion a thynnu sylw y Panel at arferion arbennig o dda neu arferion sydd yn codi pryder.
- Canfod aelod allanol cymwys i fonitro ansawdd gwaith y Pwyllgor Gweithredol fel bod aelodau CYSAG yn derbyn sicrwydd bod y gwaith yn safonol.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni chafwyd arholiadau allanol ar gyfer TGAU a Lefel A Haf 2020 oherwydd effaith Covid 19 . Barnwyd graddau i bob disgybl yn seiliedig ar asesiadau sefydliad . Mae'n annheg felly cymharu data 2020 a'r flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae'n werth nodi bod niferoedd disgyblion sydd yn dewis Addysg Grefyddol fel pwnc academaidd yn parhau yn gostwng ac yn destun pryder.

**CA4 [TGAU]**

| Ysgol | Nifer o ddisgyblion |
|---|---|
| STJA | 14 [25] |
| HH | 1 [0] |
| YGLl | 20 [14] |
| DH | 31 [33] |
| Bodedern | 17 [22] |

- 83 disgybl  oedd wedi cofrestru i  ddilyn y cwrs Addysg Grefyddol TGAU 2019-20 , hyn yn 11 yn llai na'r nifer yn 2018-19 . Er bod y gostyngiad mewn niferoedd eto ar ei lawr nid yw'r gostyngiad mor sylweddol â'r flwyddyn flaenorol[- 57 ] .
- Mae asesiadau Haf 2020 yn dangos bod y myfyrwyr sydd yn astudio'r maes wedi llwyddo graddau da . Llwyddodd 38% y graddau uchaf A*-A   [ asesiadau sefydliad ]

**CA5  Lefel A**

| School | Nifer y disgyblion | A*-A  NIFER | A*-C NIFER | A-D |
|---|---|---|---|---|
| YSTJA | 8 [13] | 5 | 7 | 8 |
| HH | 0 [0] | 0 | 0 | 0 |
| YGLl | 0 [6] | 0 | 0 | 0 |
| DH | 10 [8] | 3 | 10 | 10 |
| Bodedern | 7 [2] | 2 | 6 | 7 |

- Cafwyd  gostyngiad yn y nifer sy'n astudio Addysg Grefyddol i safon lefel A yn 2019-2020.  Eleni  25 ymgeisydd oedd yn dilyn y pwnc o gymharu â 30 y flwyddyn flaenorol .
- Mewn dwy ysgol Uwchradd , Caergybi a Llangefni nid oedd yr un disgybl yn dilyn y pwnc i safon Lefel A
- Llwyddodd 2 ddisgybl i gyrraedd  A*  eto eleni  a 10 disgybl yn llwyddo A*-A.
- Lwyddodd 23 disgybl A*-C. [ asesiadau sefydliad ]

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Annog pob ysgol Uwchradd i uchafu statws Addysg Grefyddol fel pwnc sydd yn datblygu diansyddion gwybodus sy'n gallu cyfrannu at y  byd cyfoes.
- Paratoi cydlynwyr Dyniaethau i feddu a'r gwybodaeth mwyaf diweddar i allu arwain athrawon ar gyfer gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru  o fewn y maes Addysg Grefyddol yn benodol.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 4 ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn.
Ysgol Gynradd Bodedern,
Ysgol Gymuned Llannerchymedd
Ysgol Goronwy Owen
Ysgol Rhyd Y Llan

Nododd y Clerc i'r CYSAG nad oedd Estyn wedi codi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r ysgolion uchod.

Mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- Ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus, a bod disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol a hyderus sydd â sgiliau da o ran gweithio'n annibynnol.
- Barnwyd bod ymddygiad y disgyblion yn dda, yn gwrtais, yn dangos parch ac yn dangos

gofal a chonsyrn tuag at eraill.

- Nodwyd bod disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion da.
- Bod perfformiad yn dda a disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran yr hyn y maent yn ei ddysgu. Nodwyd awyrgylch deuluol a chymuned hapus ar gyfer y disgyblion.
- Nodwyd bod staff yn creu ethos gofalgar, hapus a chynhwysol.

:

- Cafwyd consensws gan y CYSAG bod ganddynt bryder bod cyfeiriadau at Addysg Grefyddol ac ansawdd Addoli ar y Cyd yn gynnil iawn mewn adroddiadau Estyn ac felly yn beryg o di brisio'r maes fel pwnc mewn ysgolion.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mrs. Gwyneth Môn Hughes, bellach yn ei rôl newydd o Uwch Reolwr Llesiant Gwasanaeth Dysgu Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hwn yn benodiad dros dro tra bod yr adran yn mynd trwy gyfnod o ailstrwythuro.

- Yn 2019-20 estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr CYSAG ymweld â sesiynau Addoli ar y Cyd mewn ysgolion ac yna adrodd yn ôl canfyddiadau i'r Pwyllgor. Llwyddwyd i gynnal tri ymweliad ysgol yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

Cafwyd adroddiad llawn gwybodaeth gan y Cynghorydd Gwilym O Jones yn dilyn ei ymweliad ag Ysgol Kingsland, Caergybi pan yr arsylwodd y gwasanaeth boreol yn yr ysgol. Dywedodd mai thema'r sesiwn Addoli ar y Cyd oedd cyfeillgarwch, gyda phwyslais ar ofalu. Dywedodd bod y gwasanaeth yn un ardderchog, a'i fod yn codi ymwybyddiaeth am werthoedd, ystyr a phwrpas ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion adlewyrchu ar ddigwyddiadau a oedd yn cael effaith ar yr ysgol a'r gymuned leol.

Adroddodd y Cynghorydd Alun Mummery iddo fynychu sesiwn Addoli ar y Cyd yn Ysgol Llanfairpwll a'r thema oedd tŷ ar y bryn a thŷ ar y tywod. Dywedodd fod ei ymweliad yn un pleserus iawn, a gwelodd y disgyblion yn ymateb yn dda yn yr ysgol gan ddangos fod ganddynt sylfaen gadarn mewn Addysg Grefyddol.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu sesiwn Addoli ar y Cyd yn Ysgol y Talwrn, a'i bod yn sesiwn ardderchog. Roedd y disgyblion yn dathlu'r ŵyl Hindŵ, Diwali, ac yn darllen straeon o'r Beibl.

Yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf bu rhaid oedi ar yr ymweliadau oedd wedi eu trefnu oherwydd Covid 19

- Sefydlwyd Cylch Gorchwyl i'r Pwyllgor Gweithredol CYSAG a chafwyd dau gyfarfod wyneb yn wyneb a dau gyfarfod rhithiol yn ystod y flwyddyn. Er bod y Pwyllgor wedi mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu tair blynedd, oherwydd y pandemic, mae wedi bod yn her sylweddol i ddod ag aelodau i gyd at ei gilydd yr un pryd . Cynnil ydi'r effaith ar y tasgau gweithredu.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod CYSAG Môn yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol drwy ystyried arsylwadau rhithiol.
- Blaen gynllunio amselen cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredu CYSAG fel bod cynllun gweithredu yn derbyn sylw cadarn.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon Addysg Grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio newidiadau sylweddol o fewn y Maes Llafur Addysg Grefyddol. Bu'r CYSAG graffu ar ddau ymgynghoriad pwysig all gynnig oblygiadau pell gyrhaeddol.

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**

1. Ymgynghoriad ar y cynnig i sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i holl ddysgwyr

Dyddiad cyhoeddi : 3 Hydref 2019
Camau i'w cymryd : Ymatebion erbyn 28 Tachwedd 2019

2. Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Cynigion deddfwriaethol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru
Dyddiad cyhoeddi: 05 Mai 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Gorffennaf 2020

Cynhaliwyd Grŵp Tasg a Gorffen, Panel CYSAG, Gorffennaf 2020 i edrych ar yr ymgynghoriad **Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg.**

Mynegodd y Panel eu siomedigaeth ar amseriad yr ymgynghoriad a bod Llywodraeth Cymru yn annheg i ddisgwyl ymateb ystyrlon gan nad ydi 'r dogfennau perthnasol ar gael i alluogi ateb y cwestiynau.

Anfonwyd llythyr at Lywodraeth Cymru ar ran y panel i ddatgan ein siomedigaeth a'n rhwystredigaeth ond hyd yma nid oes ymateb.

Yn ogystal â'r Panel CYSAG, cafwyd cyfraniadau unigolion o'r Pwyllgor Gweithredol CYSAG i'r ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

**Cwricwlwm i Gymru**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod pob athro yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol yn dilyn yr ymgynghoriadau diweddar.
- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau ac yn gwneud defnydd llawn o adnoddau HWB
- Parhau i hwyluso athrawon Addysg Grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Ar hyn o bryd mae Estyn wedi atal arolygiadau mewn ysgolion fodd bynnag mae galwadau rhithiol yn cael eu cynnal ac yn dilyn arolygiadau thematig yn hytrach na chynnal ymweliadau ysgolion unigol.
Serch hynny mae CYSAG Môn yn parhau i argymell yr adnoddau canlynol i athrawon Addysg Grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)*

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn ymwybodol o'r arweiniad atodol ac yn gweithredu ar argymhellion diweddaraf ESTYN.
- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn cynllunio ar gyfer Cwriciwlwm i Gymru drwy rhoi ysyriaeth llawn i'r Pedwar Diben ac ymgyffori Addysg Grefyddol yn llawn o fewn y Dyniaethau

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013)
  - Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
  - Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (ESTYN, Ebrill 2018)'. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o'r canllawiau:-

  *'Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae aelodau Cysag bellach yn gwneud defnydd o pro-fforma i gofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau. Mynychodd 3 aelod o'r PANEL sesiwn addoli ar y cyd mewn ysgolion cynradd yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

